**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ-3379-22

Syr David Henshaw
Cadeirydd
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
CAERDYDD
CF24 0TP

DRWY E-BOST chair.office@naturalresourceswales.gov.uk

Rhagfyr 2022

Annwyl David,

**Llythyr Cylch Gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Tymor y Llywodraeth**

Ysgrifennaf atoch i nodi'r amcanion strategol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ystod tymor y llywodraeth 2022-26. Dylid ymdrin â’r llythyr hwn ar y cyd â'r ddogfen fframwaith llywodraethu; eich llythyr ariannu blynyddol; a'ch llythyr cylch gwaith blynyddol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Bydd yr amcanion hyn yn parhau ar gyfer tymor hwn y llywodraeth oni chânt eu dirymu, eu newid neu eu diwygio yn ôl cyfarwyddyd Gweinidogion Cymru. Bydd y llythyr hwn, yn ogystal ag unrhyw gyfarwyddiadau a ddarperir gennym, yn parhau mewn grym nes bod y llywodraeth olynol yn darparu llythyr cylch gwaith newydd.

## 1.0 Amcanion y Llywodraeth

Diben cyffredinol CNC, fel y'i nodir yn *Neddf yr Amgylchedd (Cymru)*, yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru. Fel y cyfryw, mae gwaith CNC o ran cyflawni ei rôl hanfodol fel rheoleiddiwr Cymru ac fel ymatebwr Categori 1 Deddf Argyfyngau Sifil Posibl, yn sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy er budd pobl, yr amgylchedd ac economi Cymru heddiw ac yn y dyfodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn unol â'ch diben cyffredinol, bydd CNC yn chwilio am gyfleoedd i integreiddio ei waith a'i weithgareddau gyda'r amcanion llesiant cyffredinol a nodir yn ein Rhaglen Lywodraethu, yn arbennig ein nod ar gyfer:

- ‘Adeiladu economi gryfach, decach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl’;
- ‘Ymgorffori ein hymateb i’r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn’
- ‘Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau’r dyfodol’;
- ‘Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math’
- ‘Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a’r celfyddydau i ffynnu’;
- ‘Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a’n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt’

Wrth wneud hynny, rwy'n disgwyl i chi a chydweithwyr o Lywodraeth Cymru weithio ar y cyd, a thrwy brosesau deddfwriaethol, rheoleiddiol a chabinet sefydledig, er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a ganlyn:

*Yr Economi Gylchol ac Aer Glân*

- Cydweithio â Llywodraeth Cymru i ddarparu diwygiadau ynghylch cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr i gymell lleihau gwastraff gan fusnesau, ochr yn ochr â gwelliannau o ran ailgylchu ac olrhain gwastraff busnesau a’r sector cyhoeddus, fel rhan allweddol o rôl CNC fel rheoleiddiwr yr economi gylchol yng Nghymru.
- Cefnogi’r gwaith o gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i 80 o ganolfannau ailddefnyddio ac atgyweirio yng nghanol trefi, datblygu cyfleusterau ailgylchu cymunedol yng nghanol trefi a hyrwyddo cyfleusterau atgyweirio ac ailddefnyddio i annog siopa diwastraff a newid diwylliannol ehangach mewn busnesau a chymunedau i symud ymhellach i fyny'r hierarchiaeth gwastraff.
- Cefnogi’r broses o ymestyn gwaith monitro, asesu ac adrodd o ran ansawdd aer. Darparu cyngor arbenigol i gefnogi’r broses o weithredu darpariaethau ym Mil Aer Glân (Cymru), camau cydweithredol i annog newid ymddygiad er mwyn lleihau yn barhaus y cysylltiad â llygredd aer ledled Cymru.
- Cefnogi’r gwaith o ddatblygu seilwaith gan ddefnyddio egwyddorion yr economi gylchol i leihau allyriadau nwy safleoedd tirlenwi sy'n cyd-fynd ag ymrwymiadau Sero Net Cymru.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i foderneiddio'r gyfundrefn ar gyfer trwyddedu amgylcheddol diwydiannol, gan gynnwys cysoni swyddogaethau rheoleiddwyr o dan *Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016* â rhagdybiaethau polisi Llywodraeth Cymru yn erbyn cydsynio i bob cyfleuster llosgi mawr a gorsafoedd pŵer tanwydd ffosil newydd, a datblygu a gweithredu'r Technegau Gorau Sydd ar Gael yn y dyfodol ar gyfer diwydiant i gefnogi ymrwymiadau’r Rhaglen Lywodraethu.
- Yn ystod cyfnod cynllunio prosiectau, gweithio i gryfhau'r gwaith o hyrwyddo cerdded a beicio wrth inni wneud Cymru'n genedl teithio llesol.
- Lleihau'r angen i deithio i'r gwaith drwy fabwysiadu arferion gweithio hybrid, lle gall gweithwyr weithio gartref, yn lleol neu yn y swyddfa, gan gefnogi camau i fynd i'r afael â llygredd aer a newid hinsawdd.

*Ynni*

- Cefnogi’r gwaith o gyflawni ein hymrwymiad i osgoi echdynnu tanwyddau ffosil yng Nghymru, gan gynnwys darparu data a gwybodaeth sy'n angenrheidiol i gefnogi swyddogaethau trwyddedu tanwyddau ffosil datganoledig.
- Defnyddio prosesau rheoleiddio, adnoddau a thystiolaeth ategol i gael gwared ar rwystrau diangen a chefnogi datblygiadau cynaliadwy ac ynni adnewyddadwy, gan gynnwys atebion ynni arloesol. Yn benodol, cefnogi’r broses o gyflawni'r argymhellion gan yr Archwiliad Dwfn ar ynni adnewyddadwy i gynyddu cyflymder y broses o gyflawni prosiectau adnewyddadwy a seilwaith cysylltiedig, gan gynnwys ein huchelgeisiau ar gyfer ynni morol.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Rhaglen Datblygwyr Ynni Adnewyddadwy a chefnogi Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus a grwpiau cymunedol i ehangu prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru (WGWE).
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu tystiolaeth, cyngor a chymorth i helpu i lunio Her Morlyn Llanw effeithiol, llwyddiannus ac arloesol a all lwyddo, gan gynnwys cefnogi a chynghori ymgeisydd/ymgeiswyr sy'n chwilio am ganiatâd perthnasol ar gyfer prosiectau a chymryd rhan ar Fwrdd Rhaglen Ynni’r Môr (MEP) Llywodraeth Cymru.

*Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, Draenio Cynaliadwy ac Ymaddasu i’r Newid Hinsawdd*

- Cefnogi’r gwaith o flaenoriaethu a darparu amddiffyniad ychwanegol rhag llifogydd ar gyfer mwy na 45,000 o gartrefi.
- Datblygu a chyflawni rhaglen rheoli llifogydd sy'n seiliedig ar natur ar gyfer yr holl brif ddalgylchoedd yng Nghymru er mwyn darparu manteision lluosog mewn modd integredig, gan gynnwys gwlyptiroedd, coetiroedd, draenio cynaliadwy a bioamrywiaeth, yn ogystal â manteision datgarboneiddio posibl.
- Cefnogi camau gweithredu ehangach i wella’r gwaith o ymaddasu i’r newid hinsawdd a chynllunio gwytnwch, gan gynnwys mewn perthynas â safleoedd tirlenwi a gwella ein dull o ddraenio a rheoli dŵr wyneb.
- Help i leihau'r risg o dirlithriadau tomenni drwy barhau i gyfrannu at Dasglu Diogelwch Tomenni Glo y Prif Weinidog, cefnogi’r gwaith o ddatblygu a chyflwyno deddfwriaeth newydd, gwaith gweithredol a gwytnwch, gweithio i sicrhau aliniad rheoleiddiol gan gynnwys, fel blaenoriaeth, cwblhau'r Protocol Cydweithredu, a monitro a chynnal tomenni nas defnyddir ar ystad CNC.
- Gweithio gyda Chyrff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ac ymgeiswyr i ddarparu cyngor amserol o safon yn ei rôl fel ymgynghorai statudol; gweithio gyda phartneriaid cyflawni, yn enwedig awdurdodau cynllunio lleol a phriffyrdd, datblygwyr a chwmnïau dŵr, i wneud y gorau o’r gwaith o weithredu rheoliadau SuDs presennol a chyflawni adolygiad Llywodraeth Cymru ar weithredu hyd yma. Dylai hyn gynnwys adnodd penodol ar gyfer cyflawni eich cyfrifoldebau ymgynghorai statudol mewn perthynas â cheisiadau i Gyrff Cymeradwyo SuDS, ac ar gyfer gefnogi rhaglen bolisi Systemau Draenio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, yn enwedig helpu i nodi a datblygu opsiynau i Weinidogion eu hystyried er mwyn bodloni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddeddfu i gryfhau'r gofynion ar gyfer defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy sy'n darparu cynefin i fywyd gwyllt.
- Bwrw ati i ymgymryd â’r gwaith treialu sydd ar y gweill a’r gwaith tymor hwy o gyflwyno system Rhybuddion Argyfwng y DU i gefnogi cyfranogiad Llywodraeth Cymru yn y rhaglen, gan sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd yn briodol â

Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd newydd CNC sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

*Coedwigaeth, Natur, Tirluniau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad*

- Cefnogi'r gwaith o ddarparu Coedwig Genedlaethol Cymru drwy reoli coetiroedd presennol Coedwig Genedlaethol WGWE i gyflawni'r canlyniadau a'r buddsoddiadau sy'n arwain at gyflawni ein hamcanion o goedwig genedlaethol yn y ffordd orau.
- Cefnogi cymunedau i greu 30 o goetiroedd newydd a chysylltu ardaloedd cynefinoedd (h.y., sy'n cysylltu ardaloedd o goetir) – gan recriwtio swyddogion y Goedwig Genedlaethol i weithio gyda thirfeddianwyr i gyflawni hyn.
- Cefnogi’r gwaith o ddatblygu strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren, gweithio i gyflenwi pren mewn ffyrdd sy'n manteisio i’r eithaf ar werth cymdeithasol ac amgylcheddol.
- Cyfrannu at gyflawni argymhellion yr archwiliadau dwfn ar goed a bioamrywiaeth, ac unrhyw weithredoedd CNC penodol ychwanegol sy'n deillio o'r archwiliadau dwfn.
- Bwrw ymlaen â rhaglen i ystyried ein hymrwymiad i ddynodi parc cenedlaethol newydd i gwmpasu Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.
- Rhoi’r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd ar waith i adfer o leiaf 3,000 hectar o fawndir erbyn 2025 a chefnogi/blaenoriaethu’r gwaith o gyflymu’r hyn a gyflawnir pan fo cyfleoedd yn codi.
- Ymateb i achosion o glefydau coed ar goetiroedd gan hefyd gefnogi gwaith ehangach Llywodraeth Cymru, Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a'r Comisiwn Coedwigaeth ac eraill wrth gyflawni strategaeth bioddiogelwch planhigion Prydain Fawr a strategaeth rhywogaethau estron goresgynnol Prydain Fawr.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gyda’r gwaith o ddarparu tystiolaeth a chyngor wrth iddynt ddatblygu cronfa prif ffyrdd newydd i wella atyniad a bioamrywiaeth ardaloedd wrth ymyl prif lwybrau trafnidiaeth Cymru.
- Cefnogi Tirweddau Dynodedig i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn ogystal â darparu cyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â natur.
- Hyrwyddo mynediad i gefn gwlad, gan gynnwys drwy reoli a datblygu Llwybr Arfordir Cymru (gan gynnwys dathlu ei ben-blwydd yn 10 oed) a'ch safleoedd eich hun, ac wrth wneud hyn, hyrwyddo’r Cod Cefn Gwlad. Cyfrannu at ddatblygu effeithlonrwydd a diwygiadau sy’n ymwneud â rheoli mynediad.
- Datblygu ymhellach a chyflawni’r Rhaglen Rhwydweithiau Natur, gan gynnwys y dull strategol cyffredinol, mireinio blaenoriaethau a dulliau cyflawni, a ffurfio partneriaeth ar gynllun grant y Gronfa Rhwydweithiau Natur gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri.
- Cefnogi’r gwaith o weithredu a chyflawni’r argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad dwfn ar fioamrywiaeth, gan gynnwys datblygu ardaloedd enghreifftiol adfer natur.
- Rhoi tystiolaeth a chyngor i lywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys archwilio'r cyfle i gefnogi rheoli tir yn gynaliadwy drwy eich pwerau i ddarparu Cytundebau Rheoli Tir i gefnogi'r broses o bontio i adferiad natur.
- Cefnogi’r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon ac ymrwymiad y Rhaglen Lywodraeth i ddiddymu'r defnydd o gynhyrchion plastig untro diangen neu sy’n aml yn cael eu taflu fel sbwriel. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor ar waith monitro amgylcheddol o ran yr amcan hwn.

- Cefnogi agendâu Llywodraethau Cymru ar blastig untro, yr argyfyngau hinsawdd a natur drwy hyrwyddo dewisiadau amgen cynaliadwy, gan gynnwys defnydd ehangach o bren cynaliadwy.
- Bod yn batrwm enghreifftiol ac annog newid ymddygiad oddi wrth gynhyrchion untro tuag at ddewisiadau amgen mwy cynaliadwy ymhlith gweithwyr a defnyddwyr canolfannau ymwelwyr ar draws ystad CNC.

*Y Môr a Physgodfeydd*

- Cefnogi’r broses o ddatblygu gwaith Cynllunio Morol ar gyfer adfer a defnyddio ecosystemau morol yn gynaliadwy, darparu cyngor ac arwain ar gamau i wrthdroi dirywiad amgylchedd morol ac arfordirol Cymru, cwblhau a rheoli ein rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig; rhoi diwedd ar ddulliau dinistriol o bysgota; diogelu nodweddion morol sensitif ac ymyriadau adfer ymarferol wedi'u targedu e.e., adfer cynefinoedd morwellt.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i fynd i'r afael ag argymhellion o'r adolygiad o’r dechrau i’r diwedd o brosesau trwyddedu morol
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu cynllun adfer arfordirol, gan gynnwys bwrw ymlaen â phrosiectau i'w cyflawni'n uniongyrchol gan CNC.

*Ansawdd dŵr*

- Cefnogi gwaith strategol i ddechrau dynodi dŵr mewndirol Cymru ar gyfer hamdden, a gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar gyfer safleoedd addas posibl.
- Cydweithio â Llywodraeth Cymru i ddarparu tystiolaeth gymhwysol, gwaith cynllunio amgylcheddol, datblygu rhaglenni, cyngor statudol mewnol/allanol, a chanllawiau mewn perthynas â chyflwyno, gweithredu a gorfodi Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.
- Cadeirydd CNC i barhau i arwain a chynnull grwpiau i fwrw ymlaen â chamau gweithredu i wella ansawdd dŵr, gan fynd ati i sicrhau bod perchnogion yn parhau i ganolbwyntio ar eu hymrwymiadau o'r uwchgynhadledd yn Sioe Frenhinol Cymru.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu tystiolaeth, cyngor a chymorth i wella ansawdd dŵr ledled Cymru ac i gryfhau gwaith monitro, cydymffurfio a gorfodi ansawdd dŵr; yn enwedig i gefnogi gwaith Grŵp Goruchwylio Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (datblygu a gweithredu ymyriadau); Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd a chynllunio busnes cwmnïau dŵr.

Mewn ymateb i'r cylch gwaith hwn, rwy'n disgwyl i chi lunio Cynllun Corfforaethol wedi'i ddiweddaru erbyn 1 Ebrill 2023. Yn ogystal â chyflawni eich cyfrifoldebau eich hun i gael Amcanion Llesiant o dan *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015*, dylai'ch gwaith cynllunio corfforaethol fod yn glir ynghylch sut mae'r amcanion hynny yn cyd-fynd ag amcanion llesiant cyffredinol Llywodraeth Cymru, ac yn arbennig y rhai a nodir uchod. Bydd eich cynnydd yn erbyn y Ddeddf hefyd yn cael ei fonitro'n annibynnol gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Fel rhan o waith datblygu eich Cynllun Corfforaethol a'ch Cynlluniau Busnes Blynyddol, hoffwn hefyd weld cynlluniau cyflawni prosiect a cherrig milltir realistig, gan nodi sut, a phryd, byddwch yn cyflawni'r amcanion ynddynt. Dylai blaenoriaethau CNC hefyd gael eu nodi yn ôl graddfa a chan ystyried amrywiadau posibl yn y cyllid o flwyddyn i flwyddyn, ac rwy'n gwybod y bydd ein gwaith ar y cyd ar ddatblygu Cytundebau Lefel

Gwasanaeth yn helpu o ran hynny.  Bydd y dogfennau hyn ymhlith sawl dull i helpu i gefnogi fy swyddogion a minnau wrth inni oruchwylio CNC.

**2.0 Cyfrifoldebau Craidd**

Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i chi flaenoriaethu cyflawni eich rhwymedigaethau statudol a'ch swyddogaethau rheoleiddio wrth fynd ati i gyflawni eich diben cyffredinol.  Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau a neilltuwyd i chi yn *Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015*, *Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012*; a, *Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013*; ond nid ydynt yn gyfyngedig i hynny; ac, unrhyw gyfarwyddyd cyfreithlon gan Weinidogion Cymru.

Mae gweithgareddau nad ydynt yn statudol neu'n cael eu nodi fel blaenoriaeth yn y llythyr hwn yn ôl disgresiwn a dylid eu nodi ar gyfer arbedion effeithlonrwydd posibl er mwyn cyflawni eich amcanion cyffredinol.  Rwy'n ddiolchgar am y gwaith a wnaed gennych ar yr Ymarfer Adolygu Sylfaenol y gwn y bydd yn helpu yn hyn o beth.  Wrth symud ymlaen, bydd eich gweithgareddau'n cael eu mapio'n briodol ar ffurf cerrig milltir ac yn cael eu hadrodd i mi drwy swyddogion bob chwarter, gan dynnu sylw at y risgiau, y materion, y camau lliniaru a'r hyder cyflawni perthnasol.  Rwy'n disgwyl i chi dynnu sylw ar unwaith at heriau cyflawni gyda chamau lliniaru arfaethedig er mwyn imi eu hystyried yn ôl y galw.

Fel un o sefydliadau Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i chi sicrhau bod CNC yn bodloni'r safonau uchaf o broffesiynoldeb a'i fod yn lle diogel, yn llawn parch, yn werthfawr ac yn groesawgar i'ch staff weithio ynddo.  Dylai eich camau gweithredu gael eu llywio gan ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a dylai'r sefydliad fod yn ystwyth a meddwl yn flaengar i ymateb i anghenion cymdeithas sy'n newid yn barhaus.  Mae pobl Cymru yn dibynnu arnoch i sicrhau bod polisïau, rhaglenni a gwasanaethau heddiw yn diwallu eu hanghenion, yn awr ac i'r dyfodol, ac yn cael eu cyflawni gan roi sylw dyledus i'r pwrs cyhoeddus.

Mae gan CNC rôl allweddol i'w chwarae o ran dull tîm Cymru a chydweithio i ddatblygu diwygiadau mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, y sector cyhoeddus ehangach, yn enwedig cyflawni i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth. Bydd hyn hefyd yn gofyn am bartneriaethau cryf ar draws sectorau gyda rhanddeiliaid i gyflawni'n effeithiol.  Rwy'n disgwyl i chi ofyn am gyngor a chlywed safbwyntiau ystod eang o ddinasyddion, yn y ddwy iaith swyddogol, gan ddatblygu perthnasoedd ystyrlon ag awdurdodau lleol, rheoleiddwyr eraill, cymdeithas sifil a rhanddeiliaid ledled Cymru, a thu hwnt, i wneud bywyd yn well i'n dinasyddion.

**3.0 Cyllid a Rheoli Ariannol**

Ers eich llythyr cylch gwaith blaenorol, mae Cymru wedi wynebu pandemig COVID-19– argyfwng sydd wedi dinistrio llawer o fywydau a bywoliaethau ledled y wlad – a bellach mae'n wynebu argyfwng costau byw difrifol sy'n cael ei ysgogi gan chwyddiant ac ansefydlogrwydd economaidd o ganlyniad i ffactorau byd-eang.  Mae gwariant digynsail i fynd i'r afael â COCID-19 a chynnal ein heconomi yn ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau'r safonau uchaf wrth drin a rheoli arian cyhoeddus wrth symud ymlaen.  Yn sgil realiti'r amgylchiadau hyn, yn yr un modd â meysydd eraill y llywodraeth, gofynnir i chi wneud mwy gyda'ch dyraniad cyllideb presennol.

Bydd CNC yn parhau i dderbyn llythyrau ariannu blynyddol, sy'n nodi'r setliad Cymorth Grant (GiA) ar gyfer pob blwyddyn ariannol.  Rydych yn atebol am y defnydd effeithiol

ac effeithlon o adnoddau cyhoeddus ac mae'n rhaid i chi sicrhau bod CNC yn atebol am stiwardiaeth ddarbodus o gronfeydd cyhoeddus ac yn diogelu asedau cyhoeddus.

3.1 Setliad Cymorth Grant 2022/23

Ar gyfer blwyddyn ariannol **2022-23**, rwyf wedi cymeradwyo cymorth ariannol o £112,022,000 gan Lywodraeth Cymru i CNC, gyda'r setliad Cymorth Grant (GiA) cymwys yn £92,664,000.  Dyma lefel yr arian parod Cymorth Grant y caniateir ei hawlio oddi wrth Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol ac mae wedi'i addasu ar gyfer gwariant nad yw'n arian parod (h.y., dibrisiant), arian parod a gedwir ar ddiwedd y flwyddyn, cyllid nad yw'n gymwys ac unrhyw ofynion cyfalaf gweithio.

Mae eich setliad Cymorth Grant (GiA) fel a ganlyn:

| ***Refeniw*** | ***2022-2023 mewn £'oedd*** |
|---|---|
| **Llinell sylfaen Refeniw y Gyllideb Ddrafft (gan gynnwys dibrisiant, craidd nad yw'n llifogydd) ar gyfer 2022-23** | **69,717,000** |
| Adferiad Buddsoddi i Arbed | 447,000 |
| **Refeniw y Gyllideb Derfynol (Cymorth Grant Craidd nad yw'n llifogydd) ar gyfer 2022-23** | **70,164,000** |
| Cyllideb Refeniw Cymorth Grant Llifogydd ar gyfer 2022-23 | 22,500,000 |
| **Cyfanswm Refeniw Cymorth Grant y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2022-23** | **92,664,000** |

| ***Cyfalaf*** | ***2022-2023 mewn £'oedd*** |
|---|---|
| **Llinell Sylfaen Cyfalaf y Gyllideb Ddrafft (Craidd nad yw'n llifogydd) ar gyfer 2022-23** | 2,400,000 |
| Llai ad-daliad Buddsoddi i Arbed | -42,000 |
| **Cyfalaf y Gyllideb Derfynol (Cymorth Grant Craidd nad yw'n llifogydd) ar gyfer 2022-23** | **2,358,000** |
| Cyllideb Cyfalaf Cymorth Grant Llifogydd ar gyfer 2022-23 | 21,800,000 |
| **Cyfanswm Cyfalaf Cymorth Grant y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2022-23** | **24,158,000** |
| **Cyfanswm y Cymorth Grant yn y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2022-23** | **116,822,000** |
| ***Addasiadau Cymorth Grant*** | |
| Nad yw'n arian parod (dibrisiant) | -10,000,000 |
| **Cyfanswm y Cymorth Grant ar gyfer 2022-23 – Y Gyllideb Atodol Gyntaf (Arian Parod)** | **106,822,000** |

| | |
|---|---|
| Cymorth Grant Craidd | *62,522,000* |
| *Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol* | *44,300,000* |

Mae dyraniad cyllid ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol (2022-23) wedi cael eu cyfleu i chi. Mae'r dyraniad wedi'i gynnwys uchod er mwyn cyflawnrwydd. Dylai'r incwm y caniateir ei gadw at ddibenion adnoddau refeniw fod yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu.

Yn ogystal â'r symiau a bennir uchod, ac yn dilyn cais swyddogol CNC ar 15 Chwefror 2022, gallaf gadarnhau y gallai Cymorth Grant ychwanegol o £7,300,000 fod ar gael i CNC ei dynnu i lawr yn 2022-23 ar dystiolaeth o angen i gyflawni'ch diben cyffredinol a/neu ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Dyma'r drydedd flwyddyn i lwfans eithriadol gael ei roi i CNC wedi i Weinidogion Cymru gyfarwyddo CNC i gyflwyno cynigion i gydbwyso eich gwariant cyffredinol o fewn eich cyllideb benodedig. Er bod cwblhau eich adolygiad sylfaenol wedi helpu yn hyn o beth, bydd yn hollbwysig i CNC wneud penderfyniadau rheoli priodol y flwyddyn gyllidol hon sy'n caniatáu iddo weithredu'n llwyddiannus o fewn ei gyllideb weithredu o 2024 ymlaen. Ni fydd unrhyw sicrwydd pellach o gyllid ychwanegol neu anghyffredin o'r flwyddyn ariannol hon.

Dros dymor y llywodraeth hon, gallai swyddogaethau statudol neu raglen newydd net gael eu neilltuo i CNC. Os gwneir cynigion o'r fath gan Lywodraeth Cymru, mae'n hanfodol i CNC ddarparu asesiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'm swyddogion o effaith ein cynigion a pha gymorth ariannol ychwanegol, os o gwbl, y gallech fod ei angen i'w gweithredu. Dylai asesiadau o'r fath fod yn rhan o'r Cyngor i Weinidogion gan swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gofyn am gymeradwyo cynigion o'r fath. Rwyf hefyd wedi cyfleu'r disgwyliad hwn i'm swyddogion.

3.2 Incwm a Grantiau Ychwanegol

Yn ogystal â chyllid Cymorth Grant, o bryd i'w gilydd, bydd CNC yn cael grantiau a chyllid arall nad yw'n setliad i gyflawni prosiectau a/neu ganlyniadau penodol gan amrywiaeth o ffynonellau gwahanol. Er mwyn cynnal goruchwyliaeth effeithiol o holl incwm CNC a sicrhau bod ei amcanion cyffredinol yn cael eu cyflawni, mae'n ofynnol i CNC gyflwyno adroddiad i'r Tîm Noddi heb oedi ynghylch unrhyw gyllid ychwanegol a dderbynnir; manylion y cyllid; a chynllun cyflawni busnes, prosiect neu gerrig milltir ar gyfer y prosiect neu'r canlyniad i'w gyflawni o ganlyniad i'r cyllid.

Fel mater o drefn, dylai gwaith cynllunio ariannol CNC gyd-fynd ag amseriad cylch cyllideb Llywodraeth Cymru. O fis Ebrill 2021, mae cyfrifon CNC wedi'u cyfuno o fewn Llywodraeth Cymru. Felly, mae disgwyl i CNC gydymffurfio â'r holl waith cyfrifo, rheoliadau, polisïau ac arferion ariannol a chyllideb perthnasol gan Lywodraeth Cymru. Dylai hyn gael ei wneud ochr yn ochr ag adrodd a thrafod yn rheolaidd gyda fy swyddogion.

**4.0 Goruchwylio ac Atebolrwydd**

Fel eich Gweinidog, rwy'n atebol i'r Senedd am eich gweithredoedd. Bydd angen sicrwydd strategol arnaf yn rheolaidd ynghylch gallu CNC i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i gylch gwaith. Bydd eich gallu i ddarparu gwybodaeth rheoli amser real i fy swyddogion a minnau yn hollbwysig.

Arweinydd eich Tîm Nawdd yw Dr Gian Marco Currado, a'r pwynt cyswllt arferol o fewn y tîm yw Ryan Doyle. Rwy'n eich cyfarwyddo i ddarparu unrhyw wybodaeth a'r holl wybodaeth y gellir gofyn amdani o bryd i'w gilydd gan y tîm, neu eu cynrychiolwyr, sy’n gweithredu ar fy rhan neu wrth weinyddu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n bwysig bod CNC yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd ac ymgysylltu'n agored ac yn dryloyw gyda'i Dîm Noddi i drafod goruchwyliaeth, trefniadau adrodd a sicrhau defnydd effeithiol o arian cyhoeddus.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion weithio gyda chi i sicrhau bod adroddiadau rheolaidd at ddibenion sicrwydd ar y meysydd allweddol canlynol:

- Llywodraethu strategol, cyllid a rheoli ariannol, gan gynnwys adolygu perfformiad ariannol yn rheolaidd;
- Monitro perfformiad, gan gynnwys cynlluniau cyflawni busnes, prosiect a cherrig milltir sy’n cyd-fynd â'ch dangosyddion perfformiad allweddol; a
- Rheoli risg a sicrwydd, gan gynnwys prosesau effeithiol i uwchgyfeirio risgiau i Lywodraeth Cymru.

Yn olaf, rwy'n disgwyl i chi sicrhau bod eich gweithwyr ac aelodau o’ch bwrdd yn ymwybodol o'r holl bolisïau a chanllawiau llywodraethu perthnasol, ac yn cydymffurfio'n llawn â hwy, gan gynnwys codau ymddygiad a gwrthdaro buddiannau. Rwy'n disgwyl i aelodau a gweithwyr CNC gynnal y safonau moesegol uchaf, sy'n cyd-fynd ag Egwyddorion Nolan, yn eu holl weithredoedd. Mae'r rhain yn rhwymedigaethau nad ydynt yn cael eu cyflawni’n llawn drwy weithredu o fewn y gyfraith yn unig.

Rwy'n gwybod y gallaf ddibynnu arnoch i gyflawni'r cyfrifoldebau pwysig a ymddiriedwyd ynoch chi. Mae'n ddyletswydd arnoch i droi ataf i a'm swyddogion yn gynnar ac yn aml i'ch cefnogi i gyflawni eich blaenoriaethau allweddol. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi a'ch tîm.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change